## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2014 (Papur 6)**
**Fframwaith ar gyfer Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Comisiwn y Cynulliad 2009-10**

**Dyddiad: 18 Mawrth 2010**
**Amser: 16:00**
**Lleoliad: Ystafell Gynadledda 4B**
**Enw a rhif cyswllt awdur yr adroddiad: Iwan Williams, estyniad 8039**

# Fframwaith ar gyfer Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Comisiwn y Cynulliad 2009-10

*Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn.*

**1.0 Pwrpas a chrynodeb o'r materion**

**1.1** Caiff Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon eleni ei lunio gan grŵp prosiect yn cynnwys cynrychiolwyr o bob gwasanaeth o dan arweiniad Tîm y Cyfryngau, Brandio ac e-Ddemocratiaeth y Cynulliad.

**1.2** Caiff ei anelu at gynulleidfa gyffredinol, yn cynnwys y cyhoedd, rhanddeiliaid, y cyfryngau ac Aelodau'r Cynulliad.

**1.3** Bydd yr adroddiad yn amlinellu sut mae'r Cynulliad wedi cyflawni targedau strategol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer y cyfnod dan sylw, a bydd hefyd yn crybwyll y cerrig milltir allweddol ar gyfer 2010-11.

**1.4** Dim ond ar-lein y bydd y ddogfen ar gael; bydd crynodeb byrrach hefyd yn cael ei argraffu ar gyfer ei ddefnyddio mewn digwyddiadau ac yn y Senedd.

**2.0 Argymhellion**

**Fframwaith ar gyfer Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Comisiwn y Cynulliad 2009-10**

**2.1 Gofynnir i'r Comisiwn gytuno ar yr amlinelliad arfaethedig ar gyfer Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2009–10.**

**3.0 Trafodaeth**

**3.1 Amlinelliad o gynnwys yr adroddiad**

- **Rhagair gan y Llywydd**
- **Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr**
- **Cerrig milltir 2009–10: crynodeb**
- **Llwyddiannau deddfwriaethol hyd yn hyn**
- **Trosolwg o waith y Cynulliad yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif**
- **Lansio *Yn Gywir i Gymru* gan y Panel Adolygu Annibynnol**
- **Sefydlu'r Panel ar yr Iaith Gymraeg**
- **Agor y Pierhead**
- **Blaenoriaethau ar gyfer 2010-11**
    - **Refferendwm**
    - **Adolygiad technolegol ar gyfer y Cynulliad**

**3.2 Fel yr amlinellwyd yn Amserlen Cyfrifon Comisiwn y Cynulliad 2009–10, bydd fersiwn Saesneg o'r Adroddiad Blynyddol ar gael ar gyfer ei adolygu ar 14 Mehefin 2010, sef y dyddiad sydd wedi ei glustnodi ar gyfer ei anfon i'w gyfieithu.**

**3.3 Caiff yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad o Gyfrifon ei gyflwyno gerbron y Comisiwn ar fformat pdf a'i gyhoeddi ar-lein ar 15 Gorffennaf 2010.**